OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 2661 (Cy.257)

# BWYD, CYMRU

## Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *14 Hydref 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *17 Hydref 2003* |

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nad yw mewnforio Coed Anis penodol a draddodir o wledydd nad ydynt yn Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd yn golygu bellach bod risg o niwed i iechyd ar fin digwydd;

Yn awr, gan hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13(1) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddo mewn perthynas â Chymru, ac ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003 a daw i rym ar 17 Hydref 2003 a bydd yn gymwys i Gymru'n unig.

### Dirymu

**2.** Caiff Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002(**2**) ei ddirymu.

(**1**) 1990 p.16; mae swyddogaethau o dan Ddeddf 1990 sy'n ymwneud â gorchmynion rheolaeth frys bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae paragraffau 11 a 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 yn diwygio adrannau 13 a 48 o Ddeddf 1990 yn y drefn honno

(**2**) O.S. 2002/402(Cy. 50).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

14 Hydref 2003

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/402) (Cy. 50) ("Gorchymyn 2002"), a oedd yn gwahardd mewnforio Coed Anis a Choed Anis Siapaneaidd i Gymru os o wlad y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd yr oeddent yn cael eu hanfon onid oedd amodau arbennig yn cael eu bodloni. Rhoddodd Gorchymyn 2002 ar waith Benderfyniad y Comisiwn 2002/75/EC sy'n pennu amodau arbennig ar fewnforio Coed Anis o drydydd gwledydd (OJ Rhif L33, 2.2.2002, t.31). Diddymwyd y Penderfyniad hwnnw gan Benderfyniad y Comisiwn 2003/602/EC (OJ Rhif L204, 13.8.2003, t.60).